


## Bag2School – Casglu Dydd Llun

Mae dwsinau o fagiau eisoes wedi eu dychwelyd i'r ysgol ar gyfer cael eu casglu gan Bag2School. Os ydych am sortio drwy hen ddillad ac esgidiau y penwythnos hwn anfonwch nhw i mewn ddydd Llun os gwelwch yn dda, sef y diwrnod casglu. Does dim rhaid cael y bag cywir - bydd bag clir ailgylchu y Cyngor yn gwneud y tro yn iawn.

## *Bag2School – Collection on Monday*

*Dozens of bags have already been returned to school to be collected by Bag2School. If you would like to sort through old clothes and shoes this weekend, please send them in on Monday, which is collection day. You do not need to have the official bag – a clear council recycling bag will be fine.*

---




## Ras liwiau – Ta-ta i'r Ca'

Mae'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon yn trefnu ras liwiau 'Ta-Ta i'r Ca'' i'w chynnal ar Gae Yr Ysgol Gymraeg ar ddydd Iau olaf yr hanner tymor hwn (21/05/2026 am 3:30yp) cyn i'r gwaith gychwyn ar adeiladu'r Estyniad.
Byddwn yn colli defnydd o'r cae yn ystod y flwyddyn a hanner o adeiladu, felly ffarwelio gyda'r cae am gyfnod yn unig fyddwn ni!
Gweler fwy o fanylion ar boster y digwyddiad.

## *Colour run – Farewell to the field*

*The Parent Teacher Association is organising a colour run, 'Farewell to the Field', to be held on the Ysgol Gymraeg field on the last Thursday of this half term (21/05/2026 at 3:30pm), before work begins on building the new extension.*
*We will lose use of the field during the year and a half of construction, so this is just a temporary farewell to the field!*
*Please see the event poster for more details.*

---



## Parcio – dal traffig i fyny

Mae sawl un ohonoch wedi cysylltu yn gofyn i fi eich hatgoffa o'r angen i gadw llif y draffig i symud adeg casglu ar ddiwedd y dydd. Mae rhai yn aros ar ben y ffordd yn aros am le i barcio, sydd yn achosi tagfeydd i fyny ar brif ffordd Heol Llanbadarn. Dwi'n llwyr ddeall fod parcio yn broblem ar ddiwedd y dydd, ond gofynnaf yn garedig i chi osgoi'r arferiad hyn o nawr ymlaen. Diolch

## *Parking – holding up traffic*

*Several of you have been in touch asking me to remind everyone of the need to keep traffic flowing at pick-up time at the end of the day. Some people are waiting at the end of the road for a parking space, which is causing congestion back onto Llanbadarn Road. I fully understand that parking is a problem at the end of the day, but I kindly ask you to avoid this practice from now on. Thank you.*

---

## Gŵyl rygbi tag y Scarlets

Bydd criw o flwyddyn 6 yr ysgol yn cymryd rhan mewn gŵyl rygbi tag ddydd Iau nesaf, $30^{ain}$ o Ebrill, ar gae rygbi Clwb Rygbi Aberystwyth.

Cofiwch hefyd fod gan yr ysgol docynnau am ddim i bob gêm gartref y Scarlets – os nad ydych eisoes wedi cysylltu amdanyn nhw – anfonwch neges i Swyddfa'r ysgol yn gofyn am y tocynnau sy'n weddill ar gyfer y tymor hwn.

## *Scarlets tag rugby festival*

*A group of Year 6 pupils will be taking part in a tag rugby festival next Thursday, $30^{th}$ of April, on the rugby field at Aberystwyth Rugby Club.*

*Please also remember that the school has free tickets available for all Scarlets home games – if you have not already been in touch to request them, please contact the school office to ask about the remaining tickets for this season.*

---

## Eisteddfod Calan Mai

Bydd y Côr yn cystadlu yn yr Eisteddfod hon eleni, sy'n digwydd ar brynhawn dydd Iau y 7$^{fed}$ o Fai yn Neuadd Ysgol Penweddig. Byddwn yn cwrdd am 5 o'r gloch yng nghyntedd Penweddig. Gobeithiwn orffen erbyn 6 o'r gloch.
Gweler y rhaglen isod ar gyfer cystadlaethau unigol gan gynnwys Celf a Chrefft ac ati.

Rhaglen-Aber-2026.pdf

## *Eisteddfod Calan Mai*

*The Choir will compete in this Eisteddfod this year, which takes place on the afternoon of Thursday, the 7th of May, at Penweddig School Hall. We will meet at 5 o'clock in the foyer of Penweddig. We hope to finish by 6 o'clock.*
*See the programme below for individual competitions including Art and Craft, etc.*

Rhaglen-Aber-2026.pdf

---




## Y Lein Ddillad – gwisg ysgol ail law

Bydd y Lein Ddillad ar gael ger giât yr ysgol fore dyddiau Mawrth a Mercher nesaf er mwyn i chi fedru prynu gwisg ysgol ail-law. Bydd pob eitem yn £2 – arian parod yn unig os gwelwch yn dda.

Cofiwch ein bod yn disgwyl i'r plant wisgo gwisg ysgol (hanner uchaf) trwy gydol tymor yr haf. Dyma gyfle da i brynu dillad sbâr!

## *Y Lein Ddillad – The Clothes Rail*

*The Lein Ddillad will be available near the school gate on the mornings of next Tuesday and Wednesday so that you can buy second-hand school uniform. Each item will be £2 – cash please Please remember that we expect the children to wear school uniform (top half) throughout the summer term. This is a good opportunity to buy spare clothes!*

---

## Digwyddiadau a llwyddiannau


Cofiwch fod gan yr ysgol dudalen Instagram ar gyfer rhannu lluniau a newyddion yr ysgol.
O bryd i'w gilydd bydd y timau chwaraeon wedi cystadlu neu bydd canlyniadau eisteddfodol ac ati i'w rhannu; yn ogystal â gweithgareddau'r wythnos yn y dosbarth.
Instagram – Ysgol Gymraeg
Instagram – C.Rh.A

## *Events and achievements*

*Remember that the school has an Instagram page for sharing school photos and news.*
*From time to time the sports teams will have competed or there will be eisteddfod results to share etc; as well as the week's activities in class.*

Instagram – Ysgol Gymraeg
Instagram – P.T.A

---




## Calendr Hanner Tymor

Dyma'r ddolen i'r Calendr Hanner Tymor ar gyfer yr hanner tymor hwn. Mae dolen i'r calendr yn cael ei chynnwys ym mhob llythyr, ac mae'n byw yn barhaol ar wefan yr ysgol.

## *Half term Calendar*

*Here is the link to the Half Term Calendar for this half term. A link to the calendar is included in each letter, and it lives permanently on the school's website.*

### Dyddiadau pwysig Tymor yr haf 2026:

- Ras liwiau – Ta-Ta i'r Ca' : Mai 21$^{ain}$
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd : Mai 23 – 29$^{ain}$
- Tynnu lluniau dosbarthiadau : Mehefin 10$^{fed}$
- Mabolgampau Ysgol : ~~Mehefin 11$^{eg}$~~ (ail-drefnu)
- H.M.S : Mehefin 22$^{ain}$ (Dydd Llun)
- Barbeciw/Gŵyl haf y G.Rh.A : Gorffennaf 16$^{eg}$
- Diwrnod ola'r tymor : Gorffennaf 17$^{eg}$

### *Summer term 2026 important dates:*

- *Colour Run – Farewell to the Field : May 21$^{st}$*
- *Urdd National Eisteddfod : May 23 – 29$^{th}$*
- *Class photographs : June 10$^{th}$*
- *School Sports Day : ~~June 11$^{th}$~~ (rearrange)*
- *I.N.S.E.T Day : June 22$^{nd}$ (Monday)*
- *PTA Barbeque/Summer Festival : July 16$^{th}$*
- *Last day of term : July 17$^{th}$*

**Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu ddatblygiad addysgol eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.**
***If you have any concerns about your child's welfare or educational development, then please contact me immediately.***

**Yn gywir,**
**Gareth L James**
**Pennaeth / *Headteacher***
**24/04/2026**
www.ysgolgymraeg.cymru







🖰 [Taster Course | Course | Learn Welsh]() –
register here / cofrestrwch yma am wersi am ddim




@YrYsgolGymraeg
Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY231HL
swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk
Prifathro / *Headteacher:* Mr Gareth L James
01970 617613